OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 Rhif 2708 (Cy.226)

ADDYSG CYMRU

Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) (Diwygio) 2009

Gwnaed - - - - 5 Hydref 2009
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - - 7 Hydref 2009
Yn dod i rym - - 2 Tachwedd 2009

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 72 a 138(7) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**1**) a'r pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 19(3), 21(3), 34(5), 35(4) a (5), 36(4) a (5) a 210(7) o Ddeddf Addysg 2002(**2**), ac sydd bellach wedi'u breinio ynddynt, yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) (Diwygio) 2009 a deuant i rym ar 2 Tachwedd 2009.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Dirymu

2. Dirymir rheoliad 5 o Reoliadau Addysg (Adolygu Strwythur Staffio) (Cymru) 2005(**3**).

Dehongli

3. Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "Deddf 2002" ("*2002 Act*") yw Deddf Addysg 2002.

(**1**) 1998 p. 31. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 72, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac yna i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**2**) 2002 p.32. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

(**3**) O.S. 2005/1910 (Cy.153).